

**Is-adran Rheoli Adeiladu,
Tai ac Iechyd y Cyhoedd
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE
Ffôn:- 01792 635636 E-bost:- rheoliadeiladau@abertawe.gov.uk**

Dylai'r ffurflen hon gael ei llenwi gan y person sy'n bwriadu gwneud y gwaith adeiladu neu gan asiant. Os yw'r ffurflen yn anghyfarwydd, dylech ddarllen y nodiadau arweiniad amgaaëdig neu ymgynghori â'r swyddfa a nodir uchod.

***Teipiwch neu defnyddiwch briflythrennau bras.**

1 MANYLION YR YMGEISYDD (gweler nodyn 1)

Teitl: Enwau Llawn: Cyfenw:
Enw Busnes Llawn:
Cyfeiriad:
Côd post:
Rhif cyswllt:
Cyfeiriad e-bost:

2 MANYLION YR ASIANT (os yw'n berthnasol)

Enw:
Cyfeiriad:
Côd post:
Rhif cyswllt:
Cyfeiriad e-bost:

3 LLEOLIAD YR ADEILAD Y MAE'R GWAITH YN BERTHNASOL IDDO

Cyfeiriad:
Côd post:

4 GWAITH ARFAETHEDIG

Disgrifiad:

5 DEFNYDD YR ADEILAD

1. Os yw'n adeilad newydd neu'n estyniad, nodwch y defnydd arfaethedig:
2. Os yw'n adeilad sydd mewn bod, nodwch y defnydd presennol:
3. Ydy'r adeilad yn adeilad y mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn berthnasol iddo, neu y bydd yn berthnasol iddo, ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu (gweler nodyn 5)?
YDY/NAC YDY

6

GWAITH TRYDANOL (yn berthnasol i anheddau'n unig)

Nodwch pa un o'r dulliau canlynol yr ydych yn bwriadu eu defnyddio er mwyn dangos y bydd yr holl waith sy'n gysylltiedig â gosodiadau trydan sefydlog sy'n ymwneud â'r cais hwn yn cael ei ei osod, ei archwilio a'i brofi'n unol â BS 7671: 2001 (fel y'i diwygiwyd).

a) Cynllun Person Cymwys

Ni chodir tâl ychwanegol (gweler rhestr o'r cynlluniau cymeradwy yn y nodyn arweiniol atodedig)

b) Tystysgrif BS 7671

Bydd trydanwr cymwysedig yn ardystio bod y gwaith wedi cael ei ddylunio, ei osod, ei archwilio a'i brofi'n unol â BS 7671 ac yn darparu Tystysgrif Gosodiad Trydanol ynghyd â rhaglenni archwilio a phrofi i fodloni safon BS 7671. (DS: Codir tâl ychwanegol am yr opsiwn hwn. Cysylltwch â'r swyddfa i gael y ffi briodol.)

c) Corff Rheoli Adeiladu

Bydd yr opsiwn hwn yn golygu bod trydanwr a gyflogir gan y Cyngor yn archwilio, yn profi ac yn ardystio'r gosodiad trydanol.

Sylwer: Codir tâl ychwanegol am y dewis hwn. Cysylltwch â'r swyddfa i gael gwybod y ffi briodol.

SYLWER

Mae ffioedd sy'n ymwneud â dewisiadau b) ac c) uchod yn daladwy wrth gyflwyno'r cais Rheoliadau Adeiladu.

Os dewisir a) pan gyflwynir y cais ac yna newidir i ddewis b) neu c) yn ddiweddarach, bydd y ffi ychwanegol berthnasol yn daladwy. Yn ogystal, gall hyn gynnwys agor gwaith sydd wedi'i gwblhau i'w archwilio.

7

FFÏOEDD: Gweler y nodyn arweiniad perthnasol

- Gwaith Tabl A: nodwch gyfanswm yr anheddau - _____
 - Gwaith Tabl B: os yw'r gwaith yn cynnwys ffenestri newydd, ticiwch y blwch
 - Gwaith Tabl B: os yw'r gwaith yn ymwneud â thrydan, gweler adran 7
 - Gwaith Tabl B neu C: nodwch gost amcangyfrifedig y gwaith ac eithrio TAW: £ _____ neu os yw'r gwaith yn cynnwys estyniad, nodwch arwynebedd y llawr: _____ m²
- Ffi Gynllunio: £ _____ ynghyd â TAW £ _____
- Ffi Drydanol: £ _____ ynghyd â TAW £ _____ Cyfanswm: £ _____

I wneud taliad cerdyn dros y ffôn – ffoniwch 01792 635636

Gellir talu'r ffi arolygu dros y ffôn hefyd, cysylltwch â ni pan fydd y gwaith yn dechrau.

AT DDEFNYDD Y SWYDDFA'N UNIG

Manylion y sawl sy'n talu:

Rhif y dderbynneg: Swm: £

Dyddiad:

8

Datganiad

Rhoddir yr hysbysiad hwn mewn perthynas â'r gwaith adeiladu fel a ddisgrifir. Fe'i cyflwynir yn Unol â Rheoliad 12(2) a chyda'r ffi briodol. Rwy'n deall y bydd ffioedd pellach yn daladwy yn dilyn yr archwiliad cyntaf gan yr Awdurdod Lleol. Rwy'n cytuno â chaniatâd amodol os yw'n briodol.

Enw: _____ Llofnod: _____ Dyddiad: _____

NODIADAU ARWEINIOL AR GYFER CYNLLUNIAU LLAWN

1. Yr ymgeisydd yw'r person y gwneir y gwaith ar ei ran, e.e. perchennog yr adeilad.
2. Dylid cwblhau un copi o'r hysbysiad hwn a'i gyflwyno gyda chopiau dyblyg o gynlluniau a manylion yn unol â darpariaethau Rheoliad Adeiladu 14.

Os bydd Rhan B (Diogelwch Tân) yn gosod gofyniad mewn perthynas â gwaith adeiladu, dylid cyflwyno dau gopi arall o gynlluniau sy'n arddangos cydymffurfio â'r gofynion.

3. Heblaw am rai eithriadau, codir ffi i gyflwyno cynlluniau llawn sy'n daladwy gan y person a fydd yn gyfrifol am wneud y gwaith neu y gwneir y gwaith ar ei ran. Mae ffioedd yn daladwy mewn dau gam. Mae'n rhaid anfon y ffi gyntaf wrth gyflwyno'r cynlluniau. Mae'r ail ffi'n daliad unigol fesul adeilad, i dalu am gostau pob ymweliad safle ac ymgynghoriad a allai fod yn angenrheidiol nes i'r gwaith gael ei gwblhau'n foddhaol.

Mae Tabl A yn rhagnodi'r cynllun a'r ffioedd archwilio sy'n daladwy ar gyfer tai bach.

Mae Tabl A yn rhagnodi'r ffioedd sy'n daladwy ar gyfer pob estyniad cartref, garej, ffenest newydd, gosodiad trydan etc.

Mae Tabl C yn ymdrin â'r holl waith arall.

Mae'r ffi briodol yn ddibynnol ar y math o waith a gynigir. Amlinellir y graddfeydd ffioedd a'r dulliau cyfrifo yn y Nodiadau Arweiniol ar gyfer Ffioedd sydd ar gael ar gais.

4. Yn amodol ar rai darpariaethau Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, mae hawl gan berchnogion a phreswylwyr adeiladau i'w draeniau dŵr brwnt a dŵr wyneb preifat gael eu cysylltu â'r carthffosydd cyhoeddus, pan fo hynny ar gael. Mae trefniadau arbennig yn berthnasol i ollyngiadau elifion masnachol. Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno i'r fath gysylltiad gael ei wneud roi o leiaf 21 diwrnod o rybudd i'r awdurdod priodol.

5. Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn berthnasol i bob adeilad ac eithrio: 'Tai annedd i deuluoedd sengl a newidiadau ac estyniadau i'r tai hynny.'

6. Mae'r nodiadau hyn ar gyfer arweiniad cyffredinol yn unig; ceir y manylion am adneuo cynlluniau yn Rheoliad 14 Rheoliadau Adeiladu 2010 ac, o ran ffioedd, yn Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdod Lleol) 2010.

7. Atgoffir y sawl sy'n bwriadu ymgymryd â gwaith adeiladu neu newid defnydd adeilad yn sylweddol y gall fod angen caniatâd o dan y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref.

8. Gellir cael gwybodaeth a chynghor pellach ynglŷn â'r Rheoliadau Adeiladu a materion cynllunio gan y Cyngor.

9. Bydd y Cais am Gynlluniau Llawn hwn yn peidio â bod mewn grym o dair blynedd ar ôl iddo gael ei roi i'r awdurdod lleol oni bai fod gwaith wedi dechrau cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

10. Ar ôl i'r gwaith ddechrau, fe'ch cynghorir i sicrhau eich bod yn gofyn am archwiliad cwblhau cyn i'ch contractwr adael y safle. Os na wnewch chi hynny am unrhyw reswm, gallech wynebu problemau gydag unrhyw werthiant posib yn y dyfodol Caiff y ffeiliau eu cau ar ôl cyfnod o 2 flynedd os nad oes cynnydd pellach Codir tâl arnoch os bydd angen i ni ailagor y ffeil, gwirio ein cofnodion ac archwilio gwaith er mwyn ystyried tystysgrif gwblhau.

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Rydym yn casglu'r wybodaeth hon fel rhan o'n rhwymedigaeth o dan Adran 91 Deddf Adeiladu 1984. Defnyddir eich gwybodaeth i'n helpu i gyflawni'n rhwymedigaeth gyfreithiol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Byddwn yn rhannu eich data'n ddiogel â'r trydydd partion canlynol o dan ein cytundeb rhannu data â hwy: Enwi a Rhifo Strydoedd, Cynllunio, Priffyrdd a Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel un sy'n angenrheidiol er mwyn i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel gwrthrych y data, gweler ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.